**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU**
**DYDD MAWRTH, 16 AWST 2022**

Cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Trwyddedu Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Remote meeting Dydd Mawrth, 16 Awst 2022

**Yn Bresennol: Y Cynghorydd Rosetta Dolphin (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Rob Davies a Mared Eastwood

Swyddogion Cyngor Sir y Fflint:
Cyfreithiwr, Swyddog Trwyddedu a Swyddog Datrysiadau Democrataidd

**Awdurdod Cyfrifol:** Swyddog Trwyddedu Dwyreiniol Heddlu Gogledd Cymru

Ymgeisydd
Parti â Diddordeb - (Datrysiadau Hyfforddiant Lletygarwch)

**Ymddiheuriadau:**
Dim

**1. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Dim

**2. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a’r cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol gan yr ystyrir ei bod yn cynnwys gwybodaeth wedi’i heithrio yn rhinwedd paragraffau 13 ac 13 Adran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y’i diwygiwyd).

**3. GWRANDAWIAD A PHENDERFYNIAD AR Y CAIS**

Croesawodd y Cadeirydd yr ymgeisydd a chyflwynodd aelodau’r panel.

**4. YMDDYGIAD GYRRWR CERBYD HURIO PREIFAT / CERBYD HACNI (AR Y CYD)**

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu'r adroddiad i ystyried cais am Drwydded Bersonol dan y Ddeddf Trwyddedu 2003. Cafodd y gofynion ar gyfer Trwydded Bersonol eu rhagnodi gan Ran 6 Deddf Trwyddedu 2003 a chawsant eu rhestru yn yr adroddiad. Mae Atodlen 4 y Deddf Trwyddedu 2003 yn rhestru’r troseddau perthnasol sy’n ymwneud â chais am drwydded Bersonol.

Cynghorodd y Swyddog Trwyddedu bod yr ymgeisydd wedi datgelu trosedd berthnasol nad oedd yn cael ei ystyried wedi’i threulio dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (c.53), a darparodd ei dystysgrif sylfaenol Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

yn cadarnhau hyn. Fe esboniodd, lle'r oedd ymgeisydd wedi cael trosedd berthnasol nad oedd yn cael ei ystyried wedi'i threulio, mae'n rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu gyflwyno rhybudd i Brif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru i'w hysbysu o'r ffaith. Os yw'r Prif Swyddog yn fodlon y byddai cymeradwyo'r drwydded yn tanseilio amcan atal trosedd mae'n rhaid i Heddlu Gogledd Cymru roi rhybudd i'r Awdurdod Trwyddedu yn nodi'r rhesymau pam (rhybudd o "wrthwynebiad"). Rhoddodd Heddlu Gogledd Cymru rybudd o wrthwynebiad i'r cais hwn, a dderbyniwyd ar 15 Gorffennaf 2022. Ar ôl ystyried sylwadau Heddlu Gogledd Cymru, gofynnwyd i'r Is-bwyllgor Trwyddedu i wneud y penderfyniad canlynol:

(a) gwrthod y cais os yw'n cael ei ystyried yn angenrheidiol ar gyfer hyrwyddo'r amcan atal trosedd gwneud hynny, neu
(b) cymeradwyo'r cais mewn unrhyw achos arall.

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i'r ymgeisydd siarad i gefnogi ei gais.

Cyn i'r ymgeisydd annerch y Pwyllgor, siaradodd gynrychiolydd o'r Datrysiadau Hyfforddiant Lletygarwch i gefnogi'r ymgeisydd. Dywedodd ei fod yn gweithio'n galed, ac yn aelod pwysig o'r gymuned leol, a byddai'n hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Siaradodd yr ymgeisydd ynglŷn â'i edifeirwch am ei weithredoedd, a oedd wedi arwain at euogfarn. Fe esboniodd ei fod wedi ymddwyn allan o gymeriad, ac mai'r euogfarn oedd ei drosedd gyntaf ac yr unig un. Siaradodd am ei ddedfryd, ac esboniodd y byddai'n cael ei leihau yn dilyn cwblhau cwrs perthnasol. Roedd yn ymgymryd â chwrs llawn gwybodaeth ac o gymorth iddo. Diolchodd i'r Pwyllgor am roi cyfle iddo esbonio ei amgylchiadau.

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Swyddog Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru esbonio'r rhesymau dros y 'rhybudd o wrthwynebiad' i'r cais. Cynghorodd y Swyddog Trwyddedu bod y drosedd a gyflawnwyd yn drosedd berthnasol dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 nid oedd yr euogfarn wedi'i threulio eto. Cafodd ei ystyried y byddai caniatáu Trwydded Bersonol yn gwrthwynebu'r amcan Atal Trosedd, ac nid oedd gweithredoedd yr ymgeisydd yn cyd-fynd â chyfrifoldebau Goruchwyliwr Safle Penodol.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i Gyfreithiwr y Cyngor ofyn cwestiynau i'r partïon.

Holodd y Cyfreithiwr yr ymgeisydd am amgylchiadau ei drosedd. Rhoddodd yr ymgeisydd fanylion o'r amgylchiadau, a dywedodd mai dyma oedd ei drosedd gyntaf, ac roedd ganddo gywilydd. Dywedodd ei fod wedi myfyrio ar y drosedd, ac roedd wedi canfod parch at effeithiau negyddol alcohol. Cadarnhaodd ei fod wedi talu dirwy, a'i fod yn dilyn cwrs, a fydd yn lliniaru ei ddedfryd ar ôl ei gwblhau. Gofynnodd y Cyfreithiwr am ragor o wybodaeth gan yr ymgeisydd ynglŷn â'i ddealltwriaeth o gyfrifoldebau deilydd trwydded. Roedd yr ymgeisydd yn deall bod rhaid i ddeiliad y drwydded gefnogi amcanion y drwydded, a'i fod yn parchu safbwynt yr heddlu nad oedd ei weithred yn cyd-fynd â'r amcanion, ond cadarnhaodd mai trosedd untro oedd hwn, a'i fod yn dilyn cwrs i adlewyrchu ar ei weithred.

Gofynnodd y Cyfreithiwr i Swyddog Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru am y drosedd, a'r cyfyngiadau cyfreithiol ar gyfer gyrru cerbyd ar ôl yfed alcohol. Cadarnhaodd y Swyddog Trwyddedu nad yw'r euogfarn yn cael ei threulio ar hyn o bryd dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 a'i fod yn gymwys am 20 mis o ddyddiad y trosedd. Mewn ymateb i gwestiynau pellach gan y Cyfreithiwr, esboniodd y Swyddog Trwyddedu y rhesymau pam roedd Heddlu Gogledd Cymru o'r farn na fyddai cymeradwyo Trwydded Bersonol i'r ymgeisydd yn cyd-fynd â'r amcanion atal trosedd a thrwyddedu, ac nid oedd ei weithredoedd yn cyd-fynd â chyfrifoldebau Goruchwyliwr Safle Penodol. Yn ystod y drafodaeth, cadarnhawyd, dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 bod y cyfnod adfer ar gyfer colli trwydded yrru yn dod i ben pan roedd y cyfnod y gwaharddiad yn dod i ben, a bod y cyfnod yn ymwneud ag ardystiad gyrru yn 5 mlynedd o ddyddiad yr euogfarn.

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i aelodau'r Panel ofyn mwy o gwestiynau. Mewn ymateb i gwestiwn i'r ymgeisydd am pam ei fod wedi cymryd y camau a wnaeth, a arweiniodd at gyflawni trosedd, dywedodd yr ymgeisydd ei fod wedi gwneud camgymeriad ar y pryd, ac roedd yn difaru ei benderfyniadau.

Siaradodd cynrychiolydd o Ddatrysiadau Hyfforddiant Lletygarwch i gefnogi'r ymgeisydd, a dywedodd y gallai'r ymgeisydd hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Pan oedd y Cadeirydd yn fodlon fod yr holl gwestiynau perthnasol wedi eu gofyn, gofynnodd i'r ymgeisydd, cynrychiolwyr yn bresennol, a'r Swyddog Trwyddedu adael y cyfarfod i alluogi'r Is-bwyllgor i ddod i benderfyniad.

**4.1 Penderfyniad ar y Cais**

Gwahoddwyd y Swyddog Trwyddedu, cynrychiolwyr trydydd parti, a'r ymgeisydd yn ôl er mwyn ailgynnull y cyfarfod.

Penderfynodd yr Is-bwyllgor Trwyddedu i wrthod cais am Drwydded Bersonol, ar ôl clywed holl dystiolaeth y partïon, darllen y dogfennau, ac ystyried canllawiau statudol a datganiad y polisi trwyddedu, yn unol â Deddf Trwyddedu 2003, am y rhesymau canlynol:

- mae yfed a gyrru'n euogfarn berthnasol, ac nid oedd y cyfnod Adfer wedi dod i ben;
- er bod yr Ymgeisydd wedi dangos edifeirwch, a bod yn agored a gonest am amgylchiadau'r drosedd, ystyriodd yr Is-bwyllgor ei bod yn ddifrifol a diweddar, gan ei bod wedi'i chyflawni ym mis Tachwedd 2021;
- ystyriodd yr Is-bwyllgor sylwadau Heddlu Gogledd Cymru, ynglŷn â'r cais yn tanseilio yr amcan atal trosedd, ac nid oedd yn ystyried bod yr Ymgeisydd wedi gweithredu ddigon fel arall
- oherwydd yr uchod, roedd yr Is-bwyllgor o'r farn y byddai'r Amcan Atal Trosedd yn cael ei danseilio pe bai'r drwydded yn cael ei chymeradwyo.

**4.2 Penderfyniad**

Darllenodd y Cadeirydd benderfyniad yr Is-bwyllgor (fel yr uchod) a chyn cloi'r cyfarfod, cynghorodd yr ymgeisydd fod ganddo hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad, os yw'n dymuno.

Mewn ymateb i'r cwestiwn gan y cynrychiolydd Datrysiadau Hyfforddiant Lletygarwch, esboniodd y Cadeirydd nad oedd digon o amser wedi pasio ers dyddiad y drosedd, ac roedd yr Is-bwyllgor wedi penderfynu na fyddai'r amcan Atal Trosedd yn cael ei ddiwallu.

**PENDERFYNWYD:**

Gwrthod y cais, oherwydd nad oedd yr ymgeisydd yn cael ei ystyried yn unigolyn cymwys ac addas i ddal Trwydded Bersonol yn ôl diffiniadau'r Ddeddf Trwyddedu 2003 am y rhesymau canlynol:

- mae yfed a gyrru'n euogfarn berthnasol, ac nid oedd y cyfnod Adfer wedi dod i ben;
- er bod yr Ymgeisydd wedi dangos edifeirwch, a bod yn agored a gonest am amgylchiadau'r drosedd, ystyriodd yr Is-bwyllgor ei fod yn ddifrifol a diweddar, gan ei bod wedi'i chyflawni ym mis Tachwedd 2021;
- ystyriodd yr Is-bwyllgor sylwadau Heddlu Gogledd Cymru, ynglŷn â'r cais yn tanseilio yr amcan atal trosedd, ac nid oedd yn ystyried bod yr Ymgeisydd wedi gweithredu ddigon fel arall
- oherwydd yr uchod, roedd yr Is-bwyllgor o'r farn y byddai'r Amcan Atal Trosedd yn cael ei danseilio pe bai'r drwydded yn cael ei chymeradwyo.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00a.m a daeth i ben am 11.30a.m)

..................................................

**Cadeirydd**